# Cyflwyno Medal Gee yng Nghwmllynfell



Aled Davies gyda Pat a'i phriod, Euros

Eleni cyflwynwyd 21 o fedalau Gee yn y gogledd, mewn cyfarfod cofiadwy yn Llanuwchllyn. Serch hynny, dim ond tri pherson a enwebwyd yn y de eleni, a'r rheini wedi eu gwasgaru ar draws y de. Eisioes cafwyd hanes cyflwyno'r fedal gyntaf, a hynny ym Methel, Mynachlog-ddu, a bydd un arall eto'n cael ei chyflwyno ddiwedd mis Tachwedd i'r Parch. Tom Defis mewn cyfarfod Cwrdd Chwarter yn ardal Caerfyrddin. I Gwmllynfell yr aeth y drydedd fedal, a hynny i Mrs Pat Jones Evans, priod annwyl y Parch. Euros Jones Evans, a chyflwynwyd y fedal iddi yno mewn oedfa arbennig ar 30 Hydref.

Capel Brynllynfell, sef capel Presbyteraidd Cwmllynfell, oedd y lleoliad ar gyfer y cyflwyno, a dyma'r eildro yn ei hanes i fedal Gee gael ei chyflwyno yno. Yn 2010 cyflwynwyd medal i Mrs Nanda Williams am 68 mlynedd o wasanaeth i'r ysgol Sul. Y tro hwn, Pat Jones Evans oedd wedi ei henwebu, a hynny ar ôl 62 mlynedd o wasanaeth diflino fel athrawes ysgol Sul yn y capel.

Dechreuodd Pat fynychu'r ysgol Sul yn 1950, ac yn bymtheg oed fe'i penodwyd yn athrawes, swydd y mae wedi ei dal hyd heddiw. Fe'i penodwyd yn arolygwr yr ysgol Sul, ac yna'n flaenores yn y capel. Mae hanes cyfoethog i'r ysgol Sul ym Mrynllynfell, a dengys cofnodion yr Henaduriaeth yn 1980 fod mwy o blant yn yr ysgol Sul yno na'r un eglwys arall yn henaduriaethau'r de – dros 50 o blant ar y pryd. Mae Pat yn parhau i fod yn athrawes yno, ac erbyn hyn mae 'na chwech o blant yn dod yn ffyddlon a rheolaidd ati ar y Sul. Bu Pat yn trefnu ac yn cynnal oedfaon teuluol yn rheolaidd, gan baratoi'r plant i gymryd at y rhannau arweiniol. Mae'n Gristion o argyhoeddiad ac yn credu mewn paratoi trylwyr ar gyfer y wers wythnosol er mwyn cyflwyno gwirionedd Efengyl Iesu Grist i'r plant o dan ei gofal.



Cacen arbennig ar gyfer yr achlysur

Braf oedd gweld cynulleidfa deilwng iawn wedi dod ynghyd, ac wedi gair o groeso gan y llywydd, Dr Nia Cole Jones, arweiniwyd yr oedfa gan y Parch. Aled Davies, oedd wedi teithio yno i gyflwyno'r fedal ar ran y teulu Gee a Chyngor yr Ysgolion Sul. Cafwyd canu arbennig, gyda merch ifanc o'r capel, Ffion Eleri Anderson, wrth yr organ. Ar ddiwedd yr oedfa cyflwynwyd y fedal i Pat, a chafwyd gair o ddiolch a gwerthfawrogiad ganddi.

Wedi cyhoeddi'r fendith roedd yna wledd wedi ei pharatoi yn y festri, a chafwyd cyfle i gymdeithasu dros baned a blasu cacen arbennig oedd wedi'i threfnu ar gyfer yr achlysur, a chyfarchiad arni'n llongyfarch Pat. Diolchwn iddi am y 62 mlynedd diwethaf, a braf yw clywed nad yw hi am roi gorau i'r gwaith yn y dyfodol agos.


Pat gyda phlant yr ysgol Sul

## Symposiwm rhithiol i nodi 400 mlwyddiant geni Stephen Hughes ('Apostol Sir Gaerfyrddin')

Cyfres o ddarlithoedd yn trafod addysgu'r werin yn y cyfnod modern cynnar gan ganolbwyntio ar addysgwyr o sir Gaerfyrddin. Trefnir gan Gyfeillion Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

**23 Tachwedd am 5 o'r gloch**
**Dr John Aaron**
**'Thomas Charles, yr addysgwr'**
Nid fel addysgwr yr ystyriai Thomas Charles ei hun, ond fel pregethwr. Dywed yr Athro R. Tudur Jones wrth gyfeirio at ei waith cyhoeddus, 'fod ei amrywiol gynlluniau'n canoli ar y Beibl'. Ar wyneb-ddalen ei 'Hyfforddwr' enwog gosododd yr adnod 'Bod yr enaid heb wybodaeth nid yw dda' (Diarhebion 19:2). Ac ystyr 'enaid' i Charles oedd yr elfen ysbrydol a osodwyd ymhob dyn er mwyn cymdeithasu â Duw. Sut felly y bu i ddylanwad un a oedd mor unllygeidiog yn ei uchelgais lwyddo i'r fath raddau fel y gellid cynnig ddadl gref mai ef yw athro mwyaf ein cenedl?
Archebu Tocyn:
https://www.ticketsource.co.uk/llgcnlw/t-zzojdon